Bwrdd Busnes Asiantaeth Tŷ'r Cwmnïau – Crynodeb o'r Cofnodion – 21 Medi 2009

Cerdyn Sgorio Busnes Tŷ'r Cwmnïau (gan gynnwys y Grŵp Perchnogaeth Gwasanaethau)
Adolygodd y Bwrdd y cerdyn sgorio ym maes busnes, gan olrhain y cyflawniad yn ôl y targedau a osodwyd a chan nodi'r cynnydd a wnaed yn ôl y rhestr o eitemau oedd i'w gwireddu.

Model Cynllunio Baich Gwaith
Roedd y model cynllunio baich gwaith yn cael ei adolygu, ac wrth gael y wedd derfynol, dyma fyddai sail y proses cynllunio busnes.

Adolygiad Buddion Chwarterol
Nododd y Bwrdd ganlyniadau'r adroddiad a soniai am fuddion holl brosiectau Tŷ'r Cwmnïau.

Risgiau Tyngedfennol Bwrdd Busnes yr Asiantaeth
Adolygodd y Bwrdd y risgiau fel y cawsant eu cyflwyno.

Targedau Baich Gwaith
Nododd y Bwrdd ei bod yn ymddangos bod y ffigurau mewnbwn yn magu rhywfaint o normalrwydd eto.

Cerdyn Sgorio Lefel y Manteisio ar e-ffeilio
Nododd y Bwrdd fod canlyniadau cadarnhaol yn parhau i gael eu gwireddu.

Targedau Cyhoeddus Tŷ'r Cwmnïau 2009/10
Nododd y Bwrdd y canlyniadau fel y cawsant eu cyflwyno.

Proses Rheoli Digwyddiadau ar ôl CAP
Cytunodd y Bwrdd o ran egwyddor â'r proses diwygiedig a ddeuai i fod ar ôl gweithredu CAP.

Adolygiad ac Adroddiad Rheoli Amgylcheddol 2008/09
Trafododd y Bwrdd yr adroddiad a gawsai ei baratoi fel un o'r gofynion ar gyfer achrediad cyson o dan ISO14001:2004.

Cyfarwyddyd y Prosiect Disodli *Microfiche*
Cyflewyd i'r Bwrdd sefyllfa ddiweddara'r prosiect hwn.

Targed Talu'n Brydlon o fewn 10 Diwrnod
Nododd y Bwrdd argymhellion yr adroddiad a hefyd ein bod yn parhau i berfformio'n dda ac uwchlaw BIS.

Nod Siarter/Safon Rhagoriaeth Gwasanaethau i Gwsmeriaid
Pleser gan y Bwrdd oedd cael nodi bod Tŷ'r Cwmnïau wedi cadw'r Nod Siarter ac y byddai'n anelu at y safon newydd o ran Rhagoriaeth Gwasanaethau i Gwsmeriaid y flwyddyn nesaf.

Ysgrifenyddiaeth
21 Medi 2009